

# cARTrefu

# Beth ydi cARTrefu?

**Mae cARTrefu yn brosiect celfyddydol cyffrous sy'n cael ei redeg gan Age Cymru.**

**Ers 2015 rydyn ni wedi bod yn cyfateb cartrefi gofal Cymru â rhai o artistiaid mwyaf creadigol Cymru i roi cyfle i bobl hŷn gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol safonol.**

**Mae artistiaid cARTrefu wedi galluogi i gannoedd o bobl hŷn yng Nghymru greu eu celf eu hunain drwy gyfrwng sesiynau Celfyddydau Gweledol, Celfyddydau Perfformio, Geiriau a Cherddoriaeth.**

**Mae'r sesiynau hyn wedi cael eu symleiddio a'u codio o ran lliw yn awr ar gyfer y pecyn yma. Pwrpas y cardiau hyn yw eich helpu chi i gynnal eich sesiynau cARTrefu eich hun, fel gofalwr neu breswylydd.**



age Cymru

# cARTrefu

# Sut mae defnyddio'r pecyn yma?

**Mae'r pecyn yma'n cynnwys nifer o weithgareddau i chi roi cynnig arnyn nhw. Mae'r gweithgareddau wedi'u rhannu o dan bedair ffurf ar gelf, gyda phob un yn lliw gwahanol.**

| Celfyddydau Gweledol | Celfyddydau Perfformio | Geiriau | Cerddoriaeth |
|---|---|---|---|

Mae'r gweithgareddau wedi cael eu cynllunio fel nad oes arnoch angen gwybodaeth nac offer arbenigol.

**Rydyn ni wedi labelu'r gweithgareddau felly byddwch yn gweld ydyn nhw'n fwy addas i**

**unigolyn** neu **grŵp**

Mae'r gweithgareddau i gyd yn hawdd eu gwneud, ond efallai bod rhai angen ychydig o waith paratoi. Rydyn ni wedi labelu pob gweithgaredd gydag ①, ② neu ③; mae 1 yn hawdd iawn a 3 angen ychydig mwy o amser i fod yn barod.




age Cymru

# cARTrefu

# Creu'r gofod iawn

**Mae creu'r gofod iawn yn bwysig wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol.**

**Mae pethau syml y gallwch eu gwneud i greu'r amgylchedd priodol i breswylwyr hŷn ymlacio a bod yn greadigol:**

- **Gwnewch yn siŵr bod y teledu wedi'i ddiffodd**
- **Chwaraewch gerddoriaeth ymlaciol i greu awyrgylch**
- **Rhowch y grŵp i eistedd mewn cylch neu rownd bwrdd os oes angen**
- **I ddechrau sesiwn, ewch o amgylch y cylch a gofyn i bawb gyflwyno eu hunain. Mae'n bwysig bod y grŵp yn dod i adnabod ei gilydd**
- **Ewch ati i annog aelodau'r teulu ac ymwelwyr i ymuno a chymryd rhan**
- **Dywedwch wrth y preswylwyr bod ganddyn nhw ryddid i fynd a dod fel maen nhw'n dymuno – dim pwysau**

age Cymru




# cARTrefu

# Arwain sesiwn creadigol

**Mae galluogi preswylwyr i fod yn greadigol yn cynnwys llawer o fanteision gwych a gall roi hyder i chi roi cynnig ar ragor.**

**Wrth gynllunio sesiwn, meddyliwch am y canlynol:**

- **Sut byddwch yn cyflwyno'r gweithgaredd; gallech ddangos esiamplau o beth hoffech i'r preswylwyr ei greu**
- **Cynlluniwch ffyrdd gwahanol i gynnal diddordeb y grŵp: treuliwch 15 munud ar bob cam cyn esbonio'r un nesaf**
- **Peidiwch â dim ond arwain: ewch ati i greu eich celf eich hun ochr yn ochr â'r preswylwyr. Bydd hyn yn gwneud i chi ymddangos yn llai fel athro a mwy fel cyd-artist**
- **Cofiwch annog y preswylwyr i ddilyn eu syniadau eu hunain pan gânt ysbrydoliaeth**
- **Ewch rownd y grŵp gan helpu lle mae angen a chanmol y gwaith celf sy'n cael ei greu**

age Cymru



# cARTrefu

# Rhoi cynnig ar eich gweithgaredd eich hun

**Os hoffech wneud gweithgaredd sydd ddim yn y pecyn yma, cewch roi cynnig ar un eich hun. Cofiwch:**

- **Gwnewch gynllun 3 cham fel eich bod yn glir yn eich meddwl am beth rydych yn mynd i'w wneud**
- **Casglwch bopeth sydd ei angen (celfi, deunydd, cerddoriaeth) ymlaen llaw**
- **Rhowch wybod i'r preswylwyr ymlaen llaw y byddwch yn cynnal y gweithgaredd, er mwyn iddyn nhw gael edrych ymlaen at gymryd rhan**
- **Wrth ysgrifennu cerddi, gofynnwch gwestiynau penagored i annog atebion personol ac ystyrlon**
- **Peidiwch â phoeni os oes camgymeriadau ffeithiol, ailadrodd, anghysonderau neu wrth-ddweud. Os yw stori'n teimlo'n wir i breswylydd, mae'n wir. Eu gwir nhw sy'n cyfrif bob amser**



# cARTrefu

# Cyngor call y staff

**Aethom ati i holi staff cartrefi gofal ledled Cymru am eu Cyngor Call ar gyfer cynnal sesiynau creadigol gyda'u preswylwyr.**

**Dyma'r cyngor mwyaf cyffredin:**

- **Gadael i'r preswylwyr wylio arddangosfa i ddechrau ac wedyn eu hannog i ymuno**
- **Gadael i'r preswylwyr wneud y gweithgaredd yn eu hamser eu hunain**
- **Y bore ydi'r amser gorau ar gyfer gweithgareddau creadigol, pan mae gan breswylwyr fwy o egni**
- **Cofio cael hwyl!**
- **Dechrau ar raddfa fechan a gadael i'ch sesiynau dyfu**
- **Ceisio cael dau aelod o staff yn y sesiynau. Mae'n gwneud pethau'n llawer haws**
- **Gwneud yn siŵr bod awyrgylch positif yn cael ei greu i ysbrydoli'r preswylwyr i fod yn rhydd i greu!**



# cARTrefu

# Adnoddau ar-lein

**Mae'r Rhyngrwyd yn lle gwych i chwilio am ysbrydoliaeth. Dyma rai gwefannau sy'n ddefnyddiol yn ein barn ni:**

- **www.hub.careinspectorate.com/improvement/arts-in-care**
- **www.aliveactivities.org/resources**
- **www.timeslips.org**
- **www.ageofcreativity.co.uk**
- **www.myhomelife.org.uk**

# Cadwch mewn cysylltiad!

**Byddem wrth ein bodd yn cael clywed am eich sesiynau gweithgarwch cARTrefu. Os hoffech rannu eich straeon neu os hoffech gael cymorth gydag unrhyw beth sy'n cael sylw ar y cardiau hyn, cysylltwch â:**

**cartrefu@agecymru.org.uk**

**029 2043 1555**